# Cynulliad Cenedlaethol Cymru
# Pwyllgor Iechyd a Gofal Cymdeithasol

## Pwy ydyn ni?

Mae Pwyllgor Iechyd a Gofal Cymdeithasol Cynulliad Cenedlaethol Cymru yn grŵp o ddeg o Aelodau'r Cynulliad o bob rhan o Gymru sy'n cynrychioli'r pedair plaid wleidyddol sy'n gwneud y Cynulliad. Swydd y Pwyllgor yw dwyn Llywodraeth Cymru i gyfrif ar iechyd a gofal cymdeithasol yng Nghymru, gan gynnwys cyllid, gweinyddiaeth, polisi a deddfwriaeth.

## Beth ydyn ni'n gwneud?

Yn ddiweddar, ydyn ni wedi bod yn gwneud peth gwaith ar sylweddau seicoweithredol newydd sydd weithiau'n cael eu galw yn "gyffuriau penfeddwol cyfreithlon" neu'n "legal highs". Bydd ein hadroddiad yn cael ei gyhoeddi yn 2015. Rydyn ni am adeiladu ar y gwaith yma, ac felly rydyn ni nawr yn edrych ar gamddefnyddio alcohol a sylweddau hefyd. Fel rhan o'r ymchwiliad, rydyn ni am wybod sut mae camddefnyddio alcohol a sylweddau yn effeithio ar bobl yng Nghymru, pa mor dda y caiff y problemau hyn eu trin, ac a yw'r gwasanaethau lleol cywir ar waith ledled Cymru i helpu pobl ac i wneud yn siŵr eu bod yn gwybod am y niwed posibl.

## Sut mae pobl wedi rhoi eu barn wrthyn ni?

Rhwng mis Tachwedd 2014 a mis Ionawr 2015, gwnaethon ni ofyn i bobl rhoi eu barn mewn tair ffordd:

–llenwi holiadur ymgynghori;

–llenwi arolwg anhysbys; neu

–ysgrifennu llythyr neu e-bost atom.

Hefyd, gwnaethon ni drefnu cyfarfodydd grwpiau cyfeirio gyda phobl sydd â phrofiad uniongyrchol o gamddefnyddio alcohol a sylweddau.

## Beth sy'n digwydd nesaf?

Byddwn ni'n ystyried yr holl atebion ysgrifenedig a gawn ni, yn ogystal â gwrando ar dystiolaeth lafar gan rai sefydliadau a Llywodraeth Cymru.

Yna byddwn ni'n ysgrifennu ac yn cyhoeddi adroddiad sy'n gwneud argymhellion i Lywodraeth Cymru.

## Sut y gallwch gael rhagor o wybodaeth?

Bydd rhagor o wybodaeth a'r diweddaraf am yr ymchwiliad yn cael eu cyhoeddi ar dudalen gwe y Pwyllgor:
**www.cynulliad.cymru/seneddiechyd**

Gallwch hefyd ddilyn y Pwyllgor ar Twitter ar **@IechydSenedd**, dilyn #ASMinquiry ar Twitter, anfon e-bost at **PwyllgorIGC@Cynulliad.Cymru** neu ysgrifennu at

y Clerc,
y Pwyllgor Iechyd a Gofal Cymdeithasol,
Cynulliad Cenedlaethol Cymru,
Bae Caerdydd, CF99 1NA.

Os yw camddefnyddio alcohol neu sylweddau wedi effeithio arnoch chi neu rywun yr ydych yn ei adnabod, neu os hoffech gael rhagor o wybodaeth, gallwch gysylltu â Dan 24/7 am gyngor. Mae Dan 24/7 yn llinell gymorth gyfrinachol sydd ar gael yn ddi-dâl i unrhyw un yng Nghymru sy'n dymuno cael gwybodaeth ychwanegol neu help mewn perthynas â chyffuriau neu alcohol.

Rhadffôn: **0808 808 2234** neu anfonwch neges destun **DAN** at: **81066**.
**www.dan247.org.uk**